CARDINAL NEWMAN
YSGOL GYFUN GATHOLIG
CATHOLIC COMPREHENSIVE

# Chwaraeon RhCT

## Llysgennad Ifanc Arian

## Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain

Mae hi'n Llysgennad Ifanc ymroddedig yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain. Dechreuodd ei thaith i ddod yn arweinydd yn yr ysgol gynradd, lle gwnaeth effaith nodedig a chreu gwaddol sy'n parhau i ysbrydoli eraill. Mae hi nawr yn yr ysgol uwchradd ac mae hi'n dal ati i ddod â'i brwdfrydedd, ei chreadigrwydd a'i hymrwymiad i dîm newydd o Lysgenhadon Ifainc. Gyda'i gilydd, maen nhw wrthi'n dylunio prosiect cyffrous sydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad ar draws cymuned yr ysgol.

“Mae bod yn Llysgennad Ifanc wedi helpu i fagu fy hyder a’m cariad at chwaraeon. Rydw i wedi helpu cymaint o bobl ifainc i gymryd diddordeb mewn chwaraeon a chymryd rhan mewn ymarfer corff yn yr ysgol. Rydw i hefyd wedi helpu fy ysgol i gael rhagor o gyllid i brynu offer chwaraeon. Rydw i wedi dysgu bod dim angen i chi garu chwaraeon na llwyddo mewn chwaraeon i fod yn Llysgennad Ifanc. Rydych chi'n gallu bod yn egnïol mewn ffyrdd eraill ar wahân i chwaraeon. Mae bod yn Llysgennad Ifanc yn ddefnyddiol iawn ar gyfer hyder, arweinyddiaeth, a magu cyfeillgarwch newydd. Rydw i'n ddiolchgar iawn fy mod i'n Llysgennad Ifanc ac rydw i mor ddiolchgar fy mod wedi cael y cyfle yma i helpu eraill.”

**LLYSGENNAD IFANC Y MIS - CHWEFROR 2026**

Chwaraeon RhCT Sport RCT
sportwales chwaraeoncymru
YOUTH SPORT TRUST
RHONDDA CYNON TAF